Llun ar y clawr Durdle Door wrth
edrych o Bats Head, Swydd Dorset
Llun trwy garedigrwydd Ystâd Lulworth

Swyddfeydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Dwyrain Lloegr
Terrington House
13-15 Hills Road
Caergrawnt CB2 1NL

Ffôn: 01223 224870
Ffacs: 01223 224871

Gogledd-orllewin Lloegr
9th Floor
82 King Street
Manceinion M2 4WQ

Ffôn: 0161 831 0850
Ffacs: 0161 831 0851

De-orllewin Lloegr
Trinity Court
Southernhay East
Caerwysg EX1 1PG

Ffôn: 01392 223950
Ffacs: 01392 223951

Dwyrain Canolbarth Lloegr
Chiltern House
St Nicholas Court
25–27 Castle Gate
Nottingham NG1 7AR

Ffôn: 0115 934 9050
Ffacs: 0115 934 9051

Gogledd Iwerddon
3rd Floor
51–53 Adelaide Street
Belfast
BT2 8FE

Ffôn: 028 9031 0120
Ffacs: 028 9031 0121

Cymru
Ystafell 5A, Tŷ Hodge
Plas y Neuadd
Ger Heol y Santes Fair
Caerdydd, CF10 1DY

Ffôn: 029 2034 3413
Ffacs: 029 2034 3427

Llundain
7 Holbein Place
Llundain
SW1W 8NR

Ffôn: 020 7591 6000
Ffacs: 020 7591 6273

Yr Alban
28 Thistle Street
Caeredin
EH2 1EN

Ffôn: 0131 225 9450
Ffacs: 0131 225 9454

Gorllewin Canolbarth Lloegr
Bank House
8 Cherry Street
Birmingham B2 5AL

Ffôn: 0121 616 6870
Ffacs: 0121 616 6871

Gogledd-ddwyrain Lloegr
St Nicholas Building
St Nicholas Street
Newcastle-upon-Tyne
NE1 1RF

Ffôn: 0191 255 7570
Ffacs: 0191 255 7571

De-ddwyrain Lloegr
7 Holbein Place
Llundain
SW1W 8NR

Ffôn: 020 7591 6000
Ffacs: 020 7591 6273

Swydd Efrog a Humber
Carlton Tower
34 St Paul's Street
Leeds LS1 2QB

Ffôn: 0113 388 8030
Ffacs: 0113 388 8031

cronfa dreftadaeth y loteri
heritage lottery fund

Awarding funds from
The National Lottery®
Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol



Partneriaethau Tirwedd

Grantiau £250,000 – £2 filiwn

cronfa dreftadaeth y loteri
heritage lottery fund

© Llun y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar

© Cyngor Dosbarth South Hams

Trwy ddefnyddio arian a godwyd drwy'r Loteri Genedlaethol, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn cynnal ac yn trawsnewid ystod eang o dreftadaeth er mwyn i genedlaethau gymryd rhan ynddynt, dysgu oddi wrthynt a'u mwynhau yn awr ac yn y dyfodol. O amgueddfeydd, parciau a lleoedd hanesyddol i archaeoleg, yr amgylchedd naturiol a thraddodiadau diwylliannol, rydym yn buddsoddi ym mhob rhan o'n treftadaeth amrywiol.

Partneriaethau Tirwedd

Mae CDL yn cefnogi prosiectau treftadaeth trwy nifer o gynlluniau dyfarnu gwahanol ar draws y DU. Partneriaethau Tirwedd (PT) yw ein rhaglen grant sy'n rhoi grantiau rhwng £250,000 a £2 filiwn ar gyfer cynlluniau sy'n anelu at warchod ardaloedd â nodwedd neilltuol i'w tirwedd ledled y Deyrnas Unedig.

Mae'r rhaglen yn cefnogi cynlluniau sy'n darparu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol hirdymor i ardaloedd gwledig. Mae'n rhaid i gynlluniau llwyddiannus ganolbwyntio ar ardal â nodwedd neilltuol i'w thirwedd; hyrwyddo buddion i'r cyhoedd yn bennaf ac nid at ddibenion enillion preifat; a bodloni i'r un graddau y pedwar canlyniad rhaglen canlynol:

- cadw neu adfer nodweddion adeiledig a naturiol sy'n creu nodwedd hanesyddol y dirwedd;
- cynyddu cyfranogiad y gymuned mewn treftadaeth leol;
- gwella'r mynediad at y dirwedd a'i threftadaeth a dysgu amdanynt; a
- gwella cyfleoedd hyfforddi mewn sgiliau treftadaeth lleol.

Sut mae Partneriaethau Tirwedd yn gweithio

I wneud cais am grant o dan y rhaglen hon, bydd yn rhaid i chi nodi ardal o gefn gwlad â nodwedd neilltuol i'w thirwedd sy'n cael ei chydnabod a'i gwerthfawrogi gan y bobl leol. Sefydlir hyn trwy gynnal asesiad o'r nodwedd dirwedd a thrwy ymgynghori â phobl leol.

Fel arfer gweithredir cynlluniau PT gan bartneriaeth yn cynnwys sefydliadau rhanbarthol, cenedlaethol a lleol sydd â diddordeb yn yr ardal, grwpiau cymunedol ac aelodau o'r gymuned.

Ynghyd â noddwyr eraill, bydd CDL yn cyfrannu at gronfa gyffredinol a reolir gan fwrdd y bartneriaeth i gyflwyno cynllun PT sy'n cynnwys rhaglenni o brosiectau unigol sy'n bodloni canlyniadau'r rhaglen PT.

Gan ein bod am i unrhyw fuddsoddiad CDL yn eich cynllun gael effaith, byddwn fel arfer yn disgwyl i gynlluniau gwmpasu ardal rhwng 20 a 200 cilometr sgwâr a ddiffiniwyd gan nodwedd ei thirwedd ac sy'n adnabyddus gan bobl leol.

Pwy all wneud cais

Rydym yn croesawu ceisiadau am gynllun PT oddi wrth:

- bartner arweiniol (sef sefydliad di-elw) a fydd yn gyfrifol am ddatblygu a rheoli'r cynllun ar ran aelodau eraill o'r bartneriaeth;
- partneriaeth ddi-elw sy'n bodoli eisoes sydd â'r rôl o warchod tirwedd yr ardal fel ei phrif swyddogaeth neu ran o'i swyddogaeth, er enghraifft Bwrdd Cadwraeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol; neu
- sefydliad newydd a sefydlwyd yn benodol i gyflwyno'r cynllun PT a lle cynrychiolir yr holl bartneriaid (naill ai ar y Bwrdd neu fel Grŵp Llywio).

Rhaid i bartneriaid fod naill ai'n llofnodydd i'r cyfansoddiad neu wedi'u cysylltu fel 'partneriaid' trwy gytundeb ysgrifenedig at ddibenion cyflwyno'r cynllun.

Gwneud cais am grant

Rydym yn asesu ceisiadau mewn dau gam. Mae hyn er mwyn i chi allu gwneud cais yn gynnar wrth gynllunio'ch prosiect fel y cewch syniad da os oes gennych gyfle da i fod yn llwyddiannus i gael grant cyn anfon cais mwy manwl atom.

Pan fyddwch yn gwneud cais yn y cam cyntaf, gallwch wneud cais hefyd am hyd at £100,000 i ddatblygu'ch cynllun a chynhyrchu cais ar gyfer yr ail gam, ac y mae'n rhaid iddo gynnwys Cynllun Gweithredu Cadwraeth Tirwedd. Yr uchafswm y gellir ei ddyfarnu ar gyfer cynllun PT yw £2 filiwn, gan gynnwys arian datblygu.

Rhaid i'ch cais ar gyfer y cam cyntaf gyrraedd swyddfa CDL eich rhanbarth neu'ch gwlad erbyn 30 Tachwedd bob blwyddyn er mwyn gwneud penderfyniad ar gyfer un swmp blynyddol yn y mis Ebrill canlynol.

Cysylltwch â ni am gyngor am eich cynllun arfaethedig cyn gwneud cais gan ddefnyddio'r ffurflen holi cyn ymgeisio yn yr adran 'Sut i ymgeisio' ar ein gwefan, www.hlf.org.uk